Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ein Cyf: | NB/MA | Gofynnwch am: | Matthew Aplin |
| | | ☎ | 01656 641150 |
| Dyddiad: | 15 Hydref 2018 | ✉ | cyfathrebu @ombwdsmon-cymru.org.uk |

I: Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Llythyr Blynyddol 2017/18**

Yn dilyn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf eich darparu chi â'r Llythyr Blynyddol (2017/18) ar gyfer **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**.

Mae'r nifer o gwynion iechyd sy'n dod i'm swyddfa a'r amrywiaeth ym mherfformiad y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â chwynion yn parhau i fod yn bryder. Er i ni weld gostyngiad o 2% yn y cyfanswm o gwynion, bu cynnydd o 11% yn y rhai yn erbyn byrddau iechyd, o 676 yn 2016/17 i 747 yn 2017/18. Fel canlyniad, trefnodd fy swyddfa ddwy seminar arbennig; un ym mis Mehefin 2017 ar gyfer cyrff iechyd o fewn awdurdodaeth ynghylch cwynion yn ymwneud ag iechyd ac ymarfer gorau; ac un arall yn Chwefror 2018 ynghylch diwylliant ymdrin â chwynion ar gyfer pob gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr ail ddigwyddiad, roeddwn yn falch iawn o weld cynnydd pellach ar wasanaethau y Tu allan i Oriau gyda'r prosiect Set Dysgu Ymateb Cyflym i Salwch Acíwt (RRAILS) yn gwella gwasanaethau Tu allan i oriau ym myrddau iechyd ar ledled Cymru, yn rhannol mewn ymateb i adroddiad thematic fy swyddfa: "Tu allan i oriau: amser i ofalu', ar y pwnc.

Cyhoeddwyd pedwar adroddiad diddordeb cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pob un yn ymwneud ag iechyd. Fel y gwyddoch, roedd dau o'r adroddiadau hynny'n ymwneud â'ch bwrdd Iechyd ac yn cydnabod methiannau difrifol mewn perthynas ag urddas mewn gofal diwedd oes ac ymdriniaeth wael iawn â chwynion. Os nad yw eisoes wedi gwneud hynny, rwy'n annog y Bwrdd Iechyd i fyrfio ar fy nganfyddiadau a gweithredu'n gadarnhaol ar fy argymhellion er mwyn gwella gwasanaethau. Er cyhoeddwyd y ddau adroddiad diddordeb cyhoeddus arall yn erbyn byrddau iechyd eraill, rwyf hefyd yn annog y Bwrdd i ystyried a yw unrhyw un o'r methiannau systematig a nodwyd yn yr achosion hynny yn darparu cyfleoedd i'r bwrdd adolygu a gwella ei ddarpariaeth gwasanaeth.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Mae Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflwyno gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn yr ail gam o'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod aelodau wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunwyd yn lawn ar ddatrysiad cyllidol ar 17 Gorffennaf 2018. Mae'n bwysig bod Cymru yn parhau i fabwysiadu arfer gorau wrth ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth cyhoeddus, a byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn cynorthwyo i hybu safonau gwasanaethau cyhoeddus. Os datblygir y Bil, byddaf yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus yng Nghymru i baratoi ar gyfer cyflwyno'r pwerau newydd y Bil.

**Cwynion a dderbyniwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Yn ystod y flwyddyn 2017/18, derbyniodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 186 o gwynion ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Hwn oedd y nifer uchaf o gwynion a dderbyniodd yr OGCC yn erbyn bwrdd iechyd. Tra bod hyn yn dangos gostyngiad o 3% o'r flwyddyn flaenorol (2016/17), mae'r ffigwr yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru (wedi'i addasu ar gyfer poblogaeth y Bwrdd Iechyd). Er i'r nifer o gwynion yn erbyn Betsi Cadwaladr ostwng, mae'r nifer o gwynion a ymchwiliwyd iddynt wedi cynyddu o 61 yn 2016/17 i 70 eleni. Felly, mae hyn yn destun bryder.

Mae **pwnc** y cwynion sy'n ymwneud â'r Bwrdd Iechyd yn fras adlewyrchu cyfartaledd Cymru, gyda chwynion yn ymwneud, yn gyffredinol, ag apwyntiadau/derbyniadau/gweithdrefnau cyflawniad a throsglwyddo, gwasanaethau anfeddygol, cofnodion meddygol a chyfrinachedd.

Mae'r nifer o gwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud ag ymdrin â chwynion wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf gan 26% o 27 i 20 cwyn. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r byrddau iechyd eraill.

Eleni, parhaodd cwynion ynglŷn â thriniaeth glinigol tu allan i Ysbyty i godi. Cafwyd 18 cwyn -llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Bu cynydd yn y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â thriniaeth glinigol yn yr Ysbyty gan 5% o 109 cwyn yn 2016/17 i 115 yn y flwyddyn ddiwethaf, ac maent yn parhau i ragori cyfartaledd Cymru.

Rydym yn cydnabod mai gwasanaethau canser (15) a Wroleg (11) yw'r **gwasanaethau** sy'n derbyn y mwyafrif o gwynion.

**Cwynion wedi'u cau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Cafodd 175 o gwynion ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu cau rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018. Ysgogodd 40% o'r rhain ymyriad yr OGCC. Roedd y rhain yn cynnwys cwynion wedi eu cadarnhau, datrys yn gynnar a setliad gwirfoddol. Gan fod y gyfran hon o ymyriadau'n uchel, rwy'n ystyried y dylai'r Bwrdd Iechyd weithio i ddatrys fwy o gwynion ar lefel lleol.

O’r 19 o’r achosion a gadarnhawyd, cadarnhawyd 13 yn erbyn Ysbyty Glan Clwyd, cadarnhawyd 10 yn erbyn Ysbyty Gwynedd, a chadarnhawyd 8 yn ebryn Ysbyty Mealor Wrecsam.

Fel yr amlinellir uchod, cyhoeddais ddau adroddiad diddordeb cyhoeddus yn erbyn y Bwrdd Iechyd.

Ar gyfer pob bwrdd iechyd, mae’n bryder bod cydymffurfio â’r amser ar gyfer darparu fy swyddfa i gyda thystiolaeth fod argymhellion cytunedig wedi cael eu cwblhau heb ddigwydd yn 36% o'r achosion yn 2017/18. Digwyddodd hyn yn 29% o achosion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er bod hyn yn well na’r safle cyffredinol yng Nghymru, rwy’n ystyried hyn yn faes lle gallai’r Bwrdd Iechyd wella’n ymhellach. Wrth i mi rannu argymhellion drafft â’r cyrff cyhoeddus am sylwadau cyn iddynt gael eu cwblhau, disgwyliaf i unrhyw bryderon amdanynt gael eu codi â’m swyddfa yn gynnar, cyn cwblhau adroddiad ar ymchwiliad. Unwaith y byddaf wedi cyhoeddi fy adroddiad terfynol a bod cyrff wedi cytuno'n ffurfiol arnynt, disgwyliaf i gyrff cyhoeddus eu gweithredu’n llawn ac mewn modd amserol.

Roeddwn yn falch o ymweld â’r Prif Weithredwr a chydweithwyr yn Ysbyty Glan Clwyd yn Ebrill eleni, a hoffwn gynnig eich cyfarfod eto ym mis Tachwedd eleni i weld pa gynydd pellach sy’n cael ei wneud i leihau nifer y cwynion ac i wella ymdrin â chwynion

**Camau i’w cymryd gan y Bwrdd Iechyd:**

- Cyflwyno fy llythyr blynyddol i’r Bwrdd er mwyn cynorthwyo aelodau’r Bwrdd yn eu craffu ar berfformiad y Bwrdd;

- Myfyrio ar fy nghanfyddiadau yn y ddau adroddiad diddordeb cyhoeddus a gyhoeddais yn erbyn eich bwrdd iechyd a gweithredu’n gadarnhaol ar fy arghymhellion er mwyn gwella gwasanaethau.

- Ystyried a oes unrhyw bwyntiau dysgu yn deillio o’r methiannau systematig a nodwyd yn yr adroddiadau diddordeb cyhoeddus (mewn perthynas â byrddau iechyd eraill) a gyhoeddais yn ystod 2017/18;

- Gweithio i ostwng y nifer o achosion sy’n gofyn ymyriad gan fy swyddfa;

- Parhau i weithio â fy Swyddog Gwella i wella ymdrin â chwynion, yn benodol yn y rhannau o’ch Bwrdd Iechyd sy’n cynhyrchu’r mwyafrif o gwynion ynghylch **ymdrin â chwynion.**

- Parhau i wella’ch perfformiad wrth gydymffurfio ag unrhyw argymhellion a wneuthum i wella darpariaeth gwasanaeth y Bwrdd.

Mae'r ohebiaeth hon wedi'i chopïo i Brif Weithredwr eich Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, byddaf yn anfon copi at eich Swyddog Cyswllt yn eich sefydliad chi a byddwn yn ailadrodd pwysigrwydd y rôl hon. Bydd copi o fy holl lythyrau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

CC: Prif Weithredwr
Swyddog Cyswllt

## Taflen Ffeithiau

### A. Cwynion a gafwyd ac yr ymchwiliwyd iddynt, gyda chyfartaledd y Bwrdd Iechyd wedi'i addasu yn ôl poblogaeth

| Bwrdd Iechyd | Cwynion a gafwyd | Cyfartaledd | Cwynion yr Ymchwiliwyd iddynt | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 121 | 127 | 37 | 44 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 121 | 140 | 43 | 49 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 186 | 167 | 70 | 58 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 94 | 118 | 33 | 41 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 74 | 71 | 32 | 25 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 109 | 92 | 38 | 32 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 42 | 32 | 8 | 11 |

### B. Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc gyda chyfartaledd y Bwrdd Iechyd

| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cwynion a Gafwyd | Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|
| Ymdrin â Chwynion - Iechyd | 20 | 12 |
| Iechyd – Gwasanaethau Ambiwlans | 1 | 0 |
| Iechyd – Apwyntiadau/derbyniad/ rhyddhau a throsglwyddo | 5 | 4 |
| Iechyd - Triniaethau clinigol mewn ysbyty | 115 | 62 |
| Iechyd - Triniaethau clinigol y tu allan i ysbyty | 18 | 7 |
| Iechyd - Cyfrinachedd | 1 | 1 |
| Iechyd - Gofal parhaus | 3 | 8 |
| Iechyd – Dad-gofrestru | 2 | 0 |
| Iechyd – Cofnodion meddygol/ safonau cadw cofnodion | 2 | 1 |
| Iechyd – Gwasanaethau anfeddygol – bwyd, glendid ayyb | 1 | 0 |
| Iechyd - Arall | 13 | 6 |
| Iechyd - Materion rhestr cleifion | 2 | 1 |
| Eraill Amrywiol – Dim cyfathrebu neu cyfathrebu gwael, neu methiant i darparu wybodaeth | 2 | 1 |
| Eraill Amrywiol - anfoesgarwch/ymddygiad anystyriol/agwedd staff | 1 | 1 |

## C. Cymharu canlyniadau cwynion â chanlyniadau cyfartalog y bwrdd iechyd, wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth

| Bwrdd Iechyd | Tu hwnt i Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion 'eraill' wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn Gynnar / Setliad Gwirfoddol | Wedi rhoi'r gorau iddi | Adroddiad Arall - Heb ei gadarnhau | Adroddiad arall - Wedi'i gadarnhau - yn gyfan gwbl neu'n rhannol | Adroddiadau budd y cyhoedd | Cyfanswm yr achosion a gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 27 | 18 | 44 | 34 | | 16 | 34 | 2 | 175 |
| Cyfartaledd y Bwrdd Iechyd (wedi'i addasu) | 26 | 17 | 40 | 26 | 1 | 11 | 24 | 1 | 145 |

## CH. Nifer yr achosion lle ymyrrodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

| Bwrdd Iechyd | Nifer yr achosion lle ymyrrodd OGCC | Cyfanswm yr achosion a gaewyd | % yr achosion lle ymyrrodd OGCC |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 27 | 101 | 27 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 31 | 94 | 33 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 70 | 175 | 40 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 32 | 81 | 40 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 24 | 65 | 37 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 40 | 104 | 38 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 4 | 31 | 13 |

## Atodiad

## Nodiadau esboniadol

Cymharir Adran A y nifer o gwynion yn erbyn y Bwrdd Iechyd a dderbyniwyd ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn 2017/18, â'r cyfartaledd ar gyfer y Bwrdd Iechyd (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Darparir Adran B dadansoddiad y nifer o gwynion am y Bwrdd Iechyd a dderbyniwyd gan fy swyddfa yn 2017/18 â'r cyfartaledd ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr un cyfnod.  Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc.

Cymharir Adran C canlyniadau'r cwynion ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn ystod 2017/18 â'r canlyniadau ar gyfartaledd (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Gelwir adroddiadau Budd Cyhoeddus a gyhoeddir o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn adroddiadau 'Adran 16'.

Darparir Adran D y nifer a chanran yr achosion a dderbyniwyd ac ymyrrwyd swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.  Mae hyn yn cynnwys yr holl gwynion a gadarnhawyd, datrysiadau cynnar a setliadau gwirfoddol.

## Adborth

Rydym yn croesawu'ch adborth ar y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys yng nghrynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon unrhyw adborth neu ymholiadau at catrin.wallace@ombudsman-wales.org.uk neu matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk